**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 Mai 2020

Annwyl Mr Ramsay,

**Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS – DIWEDDARIAD AR ADDASIADAU TAI – MAI 2020**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Ebrill. Mae'n dda gennyf roi diweddariad ar weithredu'r argymhellion sy'n weddill, sef 3 a 5, yn ogystal ag egluro sut mae'r gwaith wedi esblygu ers y diweddariad diwethaf yng Nghorffennaf 2019.

<u>Argymhelliad 3</u>
Mae'r Grwp Llywio Addasiadau Tai (GLlAT) wedi cynnig na ddylid gweithredu profion modd ar addasiadau llai cymhleth (bach a chanolig) nac ar unigolion sy'n derbyn triniaeth liniarol neu ofal diwedd oes. Cyn ymgynghori ar yr opsiwn yma, fodd bynnag, cred y GLlAT bod angen darparu tystiolaeth o'r gost o ddileu'r prawf modd ar gyfer addasiadau bach a chanolig a'r effaith bosibl ar y galw amdanynt. Gallwn gyfrif y gost o ddileu'r prawf modd o ddata awdurdodau lleol am gyfraniadau presennol cleientiaid tuag at addasiadau a ariennir drwy Grant Cyfleusterau i'r Anabl (GCA) (ar gyfer 2018/19), ond ni wyddys beth fyddai effaith dileu'r prawf modd ar gynyddu'r galw am GCA. Gall gynnydd mewn galw arwain at amseroedd aros hirach am GCA a beichiau ariannol ychwanegol ar awdurdodau lleol.

Fel canlyniad, comisiynodd Llywodraeth Cymru y Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i ddarparu'r fath dystiolaeth, gan gynnwys archwilio'r posibilrwydd o ddileu'r prawf modd ar gyfer addasiadau mwy. Byddai hyn wedi gofyn am ymgysylltu sylweddol gydag awdurdodau lleol. Fodd bynnag, am fod adnoddau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi'u hailgyfeirio er mwyn ymdrin â'r epidemig Covid-19 presennol, mae gwaith y GLlAT wedi'i oedi ac ni fu'n bosibl i barhau â'r ymchwil. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa hon fel mater o frys cyn gynted bod hynny'n ymarferol i'w wneud.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Argymhelliad 5

Un o'r cynigion a gytunwyd gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol oedd i swyddogion ymgymryd â rhaglen o waith drwy'r GLIAT i ddarparu fframwaith strategol trosfwaol ar gyfer cynllunio a darparu addasiadau tai gan bob darparwr yn 7 ardal y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru. Bwriedir y Fframwaith i weithredu ffordd o weithio amlasiantaeth integredig sy'n canolbwyntio ar atal, tegwch a llwybrau clir i mewn i wasanaethau. Byddai'r Canllawiau a fyddai'n canlyn y fath Fframwaith yn rhoi cyfeiriad i bob darparwr gwasanaethau a ffrwd gyllido, gan gynnwys Enable. Am y rheswm yma, penderfynom i beidio cyhoeddi canllawiau ar wahân i Enable ar hyn o bryd, ond i ymgorffori'r angen i integreiddio gyda darparwyr gwasanaethau eraill yn y telerau ac amodau grant.

Sefydlodd y GLIAT Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ymgymryd â'r gwaith hwn. Cyfarfu'r Grŵp dair o weithiau a disgwylid iddynt gyflwyno amlinelliad o Fframwaith i'r GLIAT yn eu cyfarfod ym mis Mehefin. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn hefyd wedi'i oedi am hyd yr argyfwng Coronafeirws.

O ran newidiadau yn arferion awdurdodau lleol wrth weithredu profion modd, sylwedd y gwaith cychwynnol oedd gweithdy gyda rhanddeiliaid ym mis Gorffennaf 2019 a ddaeth i'r casgliad bod angen mwy o dystiolaeth, fel a nodir uchod o dan Argymhelliad 3. Mae'r diffyg data hanesyddol wedi bod yn rhwystr i ddeall tueddiadau mewn newid arfer. Mae'r *Dadansoddiad Data Lefel Uchel ar  addasiadau tai 2018-19* a gyhoeddwyd gennym yn Rhagfyr 2019 yn dangos bod awdurdodau lleol wedi darparu dros 16,000 o addasiadau, ac o'r rhain, roedd ychydig dros 4,000 yn GCA. Mae data gweinyddol a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru gan awdurdodau lleol yn dangos bod hanner o'r rhain (2,138) yn destun prawf modd. Darparwyd dros 12,000 o addasiadau gan awdurdodau lleol o dan bwerau disgresiwn. Cyhoeddir y dadansoddiad data ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/addasiadau-tai-dadansoddiad-2018-2019.pdf

I droi at yr adolygiad ehangach o addasiadau (neu'r 'adolygiad system' fel y cyfeiriwyd ato gynt), mae hyn yn cynnwys bellach dri darn o waith cysylltiedig. Y cyntaf oedd i sefydlu safonau gwasanaeth sy'n berthnasol i bob addasiad, beth bynnag y ddeiliadaeth, y darparwr neu'r ffynhonnell gyllido. Mae hyn mewn grym ers Ebrill 2019. Yr ail yw i adolygu'r polisi ar brofion modd a gweithredu newidiadau – cyfeiriais at hyn o dan Argymhelliad 3 uchod. Y trydydd yw i sefydlu Fframwaith Cynllunio Strategol er mwyn integreiddio cynllunio a darparu addasiadau ar lefel rhanbarthol, fel a nodwyd o dan Argymhelliad 5. Gyda'i gilydd, a chyda sail o adrodd blynyddol gwell o dipyn, bydd hyn yn gwella'n sylweddol gysondeb, tegwch a safon gwasanaethau addasu.

Mae'n anffodus bod yr argyfwng iechyd presennol wedi cael effaith ar ein hadolygiad o addasiadau sy'n parhau. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi gwaith gwerthfawr darparwyr addasiadau yn ystod yr wythnosau diwethaf, yn helpu i hyrwyddo rhyddhau cleifion yn gynnar o'r ysbyty a lleddfu pwysau ar y system iechyd a gofal. Mae'r darparwyr wedi ymateb yn bositif i'r canllawiau a gyhoeddwyd gennym, tra'n gweithio'n aml mewn amgylchiadau anodd: Canllawiau i asiantaethau gofal a thrwsio, awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n darparu addasiadau i dai: coronafirws (COVID-19)

Byddwn yn hapus i ddiweddaru'r Pwyllgor ymhellach wrth i faterion ddatblygu neu i ddarparu eglurhad pellach ar yr ymateb uchod.

Yn olaf, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddymuno’n dda i chi, eich cyd Aelodau Pwyllgor ac Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor ar adeg anodd iawn i ni gyd.

Yn gywir iawn



Tracey Burke